Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

Cynllun Iaith Gymraeg

Darparwyd dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993

Mawrth 2003

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2003. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd neu fesul rhan at ddibenion addysgol anfasnachol cyhyd ag y bod yr holl ddyfyniadau'n cael eu hatgynhyrchu air am air heb eu haddasu, a'ch bod yn nodi'r ffynhonnell a'r dyddiad.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW
Ffôn: 029 20 446446

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Estyn Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cynllun Iaith Gymraeg a ddarparwyd dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993

Darparwyd y Cynllun hwn yn unol ag Adran 21(3) Deddf Iaith Gymraeg 1993.

Mabwysiadwyd y Cynllun hwn gan Estyn ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym Mawrth 2003.

Mae Estyn wedi mabwysiadu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Eglura'r Cynllun hwn y modd y bwriada Estyn roi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

Cynnwys		tudalen
1	Cyflwyniad	1
2	Egwyddorion cyffredinol	3
3	Perthynas Estyn ag eraill: Arolygu a chynghori	3
4	Safon ein gwasanaeth Cymraeg	7
5	Gwasanaeth Cymraeg Estyn	7
6	Gweithredu'r Cynllun	12
7	Monitro'r Cynllun a cyhoeddi gwybodaeth	14
8	Hysbysrwydd i'r Cynllun	15
9	Awgrymiadau ar gyfer gwella'r Cynllun	15
10	Cwynion	15

Atodiad 1

Cynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r Cynllun ar waith

1. Cyflwyniad

Y Cynllun

Eglura'r Cynllun hwn y modd y mae Estyn am weithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cynllun yn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol, adrannau o'r cyhoedd sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant yn enwedig rhieni, llywodraethwyr, awdurdodau addysg lleol, arolygwyr annibynnol, asiantaethau arolygu ac eraill sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant.

Estyn (a adwaenid gynt fel SPAEM) yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ei ddiben yw darparu arolygiadau o safon uchel i ddarparwyr addysg a hyfforddiant annibynnol a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru; a rhoi cyngor doeth ac annibynnol, ar sail tystiolaeth o arolygiadau, i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w helpu i lunio ac arfarnu polisïau addysg a hyfforddiant.

Mae gwaith Estyn yn ystyried y weledigaeth a'r cyfeiriad strategol a nodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn www.gwellcymru.com, gan gynnwys ei weledigaeth o Gymru:

'*sy'n ymrwymedig i feithrin ei hunaniaeth unigryw ac amrywiol, a manteision dwyieithrwydd, tra'n edrych yn hyderus tuag allan ac yn croesawu dylanwadau diwylliannol newydd*'

www.gwellcymru.com

ac egwyddorion allweddol datblygiad cynaliadwy, cynnwys cymdeithasol a chyfle cyfartal. Mae Estyn yn ymdrechu i weithredu'r egwyddorion hyn ym mhob agwedd ar ei waith a bydd yn gweithio mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill i gyflawni'r weledigaeth hon.

Arweinir Estyn gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM). Mae ei strwythur, a seiliwyd ar dair adran, yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni ei amcanion fel sefydliad. Mae dwy adran yn ymdrin ag arolygu a chynghori, a'r drydedd yn darparu cynlluniau busnes, systemau gweithredol a gwasanaethau corfforaethol. Mae gennym swyddfeydd yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug.

Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu'r ddarpariaeth yn y sectorau addysg a hyfforddiant canlynol:

- ysgolion meithrin a lleoliadau addysgu nas cynhelir gan y wladwriaeth[1];
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- addysg oedolion a chymuned;
- gwasanaethau cymorth i ieuenctid;
- asiantaethau ieuenctid gwirfoddol;
- AauALl;
- addysgu a hyfforddi athrawon;
- hyfforddiant yn seiliedig ar waith;
- cwmnïau gyrfa;
- elfennau addysg, gyrfaoedd a hyfforddiant y Fargen Newydd.

Byddwn hefyd yn cynnal arolygon yn ôl thema ac ardal, arolygon o bynciau'r cwricwlwm ac agweddau eraill ar addysg ac yn cyhoeddi adroddiadau ar y canfyddiadau. Ymgymerwn ag archwiliadau/arolygiadau penodol mewn ymateb i geisiadau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant, gan gynnwys sefydliadau hyfforddiant athrawon cychwynnol, mae Estyn yn cyflenwi'r angen i gyflwyno adroddiadau ar ansawdd a safonau gwaith mewn:

- sefydliadau sy'n darparu addysg Gymraeg a dwyieithog;

- dysgu ac addysgu ym maes y Gymraeg a Chymraeg fel ail iaith; a

- hyfforddi athrawon ar gyfer addysg a hyfforddiant dwyieithog a Chymraeg ac ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion a cholegau.

[1] Lleoliadau addysgu nas cynhelir gan y wladwriaeth yw ysgolion meithrin dydd, grwpiau chwarae a chanolfannau dydd yn y sectorau annibynnol, preifat a gwirfoddol.

2. Egwyddorion cyffredinol

Egwyddor cydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau y byddwn yn eu darparu ein hunain a'r rhai y bydd eraill yn eu darparu ar ein rhan.

Darparu gwasanaeth a safon y gwasanaeth

Mae holl bolisïau'r Cynllun hwn un ai'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd neu wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu yn Atodiad 1.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon yr un mor uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym am i safon ein gwasanaethau fod yn gyson, pa un a ddarperir hwy yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Byddwn yn monitro safon y gwasanaeth a'r modd y'i darperir.

Cynllunio gwasanaethau

Wrth gynllunio gwasanaethau, rydym wedi ymrwymo i lwyr barchu'r angen i ddarparu i'r un graddau ar gyfer siaradwyr Cymraeg a Saesneg.

Polisïau a dulliau gweithredu newydd

Pan awn ati i weithredu polisïau a chynlluniau newydd, sicrhawn y bodlonant amcanion polisïau'r Cynllun hwn. Ni fyddwn yn newid y Cynllun heb gael caniatâd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyntaf.

3. Perthynas Estyn ag eraill: Arolygu a chynghori

Arolygu

Gweithredwn yr egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ein holl waith arolygu, gan gynnig darpariaeth a gwasanaethau dwyieithog ble bynnag y bo gofyn amdanynt o dan y Cynllun hwn.

Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu amrywiaeth eang o ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru fel y rhestrir ar dudalen 2. Bydd cyfres o fframweithiau arolygu a llawlyfrau cymorth yn nodi ein harferion arolygu'n glir. Bydd y rhain ar gael ar ein gwefan yn www.estyn.gov.uk. Cawsant eu trafod mewn ymgynghoriad gyda phawb sydd â diddordeb mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru, gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Maent yn nodi'n fanwl iawn y ffordd y byddwn yn arolygu'r graddau y mae darparwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol a Chwmnïau Gyrfaoedd a

Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid, yn sicrhau bod eu darpariaeth a'u cysylltiadau â'r cyhoedd yn parchu dewis iaith y dysgwr[2]. Mewn cyfundrefnau lle mae Cynlluniau Iaith yn bodoli, byddwn yn sicrhau bod y ddarpariaeth a'r cysylltiadau â'r cyhoedd yn unol â'r rhain. Yn ddiweddar ymgynghorwyd ar Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd a fydd yn cynnwys y rhan fwyaf o'n gwaith arolygu ac rydym ar hyn o bryd yn paratoi llawlyfrau arweiniad i fynd gydag ef. Rydym yn llunio llawlyfr cyngor ac arweiniad ar gyfer arolygu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Fframweithiau a llawlyfrau arolygu Estyn

Mae ein fframweithiau a'n canllawiau arolygu yn nodi'n fanwl sut y byddwn yn barnu'r graddau y mae:

- darparwyr yn ystyried gofynion ieithyddol dysgwyr a chyfranddeiliaid allweddol eraill wrth ddarparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill. Cyn belled ag y mae addysg statudol yn y cwestiwn, byddwn yn arolygu'r ddarpariaeth yn unol â natur ieithyddol yr ysgol fel y diffinnir gan yr awdurdod addysg lleol;

- gweithgareddau a gwasanaethau'r darparwr yn adlewyrchu proffil ieithyddol yr ardal y mae'n ei gwasanaethu a'r cysylltiadau ieithyddol sy'n bodoli rhwng y darparwr, y gymuned a'r holl gyfranddeiliaid;

- dysgwyr yn gallu gwneud cynnydd rhwng y sectorau, gan ddilyn eu dewis lwybrau addysgol yn eu dewis iaith; a

- darparwyr yn arwain wrth hyrwyddo'r egwyddorion ieithyddol hyn ac yn sicrhau mai iaith y dysgwr yw'r elfen allweddol, er enghraifft, wrth sicrhau cyfeiriadau addysgol unigol rhwng adrannau neu asiantaethau ac wrth ddarparu cyngor ac arweiniad gyrfaol a chyngor ac arweiniad arall.

Cwestiynau allweddol ar gyfer yr arolygiad yng nghyd-destun ein Cynllun Iaith Gymraeg

Yn ein holl waith arolygu, mae cwestiynau allweddol pob darparwr addysg a hyfforddiant, gan gynnwys y rhai sy'n cynnig darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, fel a ganlyn:

Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? A fyddant yn cyrraedd safon briodol yn y ddwy iaith?

Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? A fydd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu'n bodloni anghenion ieithyddol y dysgwyr?

Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn bodloni anghenion a buddiannau dysgwyr a'r gymuned ehangach? A ydynt yn hyrwyddo medrau dwyieithrwydd dysgwyr ac yn adlewyrchu iaith a diwylliant Cymru?

[2] Dysgwr – pob un sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant drwy gydol oes.

Pa mor dda y gofelir am ddysgwyr a'u tywys a'u cefnogi? A fydd darparwyr yn cefnogi ac arwain dysgwyr yn briodol, gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig neu ieithyddol?

Pa mor effeithiol yw arweiniad a rheolaeth strategol? Mae hyn yn cynnwys ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru gan gynnwys dwyieithrwydd?

Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Pa mor effeithlon yw arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? Lle mae darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog, bydd yr adran hon yn adrodd ar arbenigedd perthnasol y staff a phriodoldeb yr adnoddau a ddefnyddir.

Proffil ieithyddol y gymuned a wasanaethir

Bydd y cwestiynau hyn yn cynnwys ystyried y graddau y mae'r sefydliad yn ystyried proffil ieithyddol y gymuned a'i ddysgwyr wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â dyrannu adnoddau a'r graddau y mae ganddo'r gallu ieithyddol i gyflawni ei amcanion. Bydd Estyn yn ystyried gwaith Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru ac eraill wrth ddatblygu ei ddealltwriaeth ei hun o gyflenwad y sgiliau Cymraeg i'r gweithlu ac wrth asesu i ba raddau y mae darparwyr addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion y farchnad lafur am sgiliau Cymraeg a dwyieithog.

Cyngor

Mae Estyn hefyd yn gyfrifol am gynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill yng Nghymru ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant. Mae'n cyhoeddi adroddiadau ar amrywiaeth o faterion mewn ymateb i geisiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi'u rhestru mewn cylch gorchwyl blynyddol.

Yn ei gyngor, bydd Estyn yn:

- ystyried dimensiwn ieithyddol y cyngor, gan dynnu sylw at y materion hyn o fewn y ddogfen;

- gweithio o fewn fframwaith polisi trosfwaol sefydledig a fydd yn rhoi ystyriaeth lawn i faterion ieithyddol. Er enghraifft, bydd Panel Estyn ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog yn darparu cyngor yn unol â'i gylch gorchwyl ar draws y sectorau; a

- lledaenu a hyrwyddo arfer dda ynglŷn ag addysg Gymraeg a dwyieithog, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chynnydd.

Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, bydd Estyn yn trafod yn rheolaidd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn ymgynghori gyda'i gynrychiolwyr ar faterion o fudd i'r ddwy ochr.

Wrth weithredu'r egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg i'n holl waith arolygu byddwn yn:

- *rhoi darpariaeth a gwasanaethau dwyieithog pryd bynnag y bydd hynny'n briodol a sicrhau bod ein holl waith arolygu a chynghori yn ystyried materion ieithyddol a diwylliannol;*

- *rhoi sylw manwl i'r dimensiynau ieithyddol a diwylliannol wrth ddatblygu a gweithredu'r holl fframweithiau arolygu a'r llawlyfrau cyngor, gan ymgynghori'n eang ar eu cyd-destun;*

- *ymgynghori â'r sefydliadau y cydweithiwn â hwy gan nodi'r iaith a ddefnyddia pob un wrth gysylltu â ni gyntaf, ac ystyried amgylchiadau lleol megis eu polisïau, eu staffio a'u harferion cyfredol;*

- *sicrhau bod arolygwyr sy'n arolygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn gymwys i wneud hynny ac yn ymwybodol o ganllawiau Estyn ar gyfer arolygu addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;*

- *sicrhau bod y gwaith arolygu a'r gweithgareddau a wnawn mewn ymateb i ofynion a chynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddwyieithog fel y bo'n briodol;*

- *mynnu bod y cynlluniau a luniodd Estyn er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n helpu i sicrhau cyrsiau addysg a hyfforddiant mwy effeithiol ac effeithlon, a hyrwyddo codi safonau, yn cael eu gweithredu'n ddwyieithog;*

- *sicrhau y cesglir gwybodaeth am yr hyn a wna pob asiant/contractwr i gydymffurfio â'r gofynion Cymraeg yn ei gontract;*

- *monitro sampl o arolygiadau er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn cydymffurfio â'r cynllun;*

- *archwilio canlyniadau'r gwaith monitro hwnnw a'r atebion i unrhyw holiaduron a ddosbarthwyd ar ôl cynnal yr arolygiadau er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun; a*

- *chynnal trafodaethau rheolaidd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â'n gwaith ac ymgynghori gyda'i gynrychiolwyr ar faterion o fudd i'r ddwy ochr.*

4. Safon ein gwasanaeth Cymraeg

Bwriadwn ddarparu gwasanaeth Cymraeg a dwyieithog o safon uchel, ac yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, er mwyn mabwysiadu'r arferion gorau posibl wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Gwnawn hyn drwy :

- *sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal;*
- *cyhoeddi ein Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn hyrwyddo trefn agored a sicrhau bod pawb yn deall y Cynllun;*
- *bod yn gwrtais ac yn barod ein cymwynas bob amser;*
- *gosod canllawiau eglur ar gyfer ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg ei iaith;*
- *nodi sut yn union y dylai'r cyhoedd gysylltu ag Estyn er mwyn gwella dealltwriaeth, prysuro gwelliannau a thynnu sylw at unrhyw ddiffygion yn y dull o weithredu'r polisi;*
- *sicrhau bod staff Cymraeg eu hiaith ar gael;*
- *adolygu effeithiolrwydd y gwasanaeth Cymraeg yn rheolaidd a gosod targedau ar gyfer ei wella; a*
- *monitro'n perfformiad fel darparwr gwasanaethau o safon uchel.*

5. Gwasanaeth Cymraeg Estyn

Gohebu â'r cyhoedd

Croesawn lythyron Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Bydd unrhyw ohebiaeth a gychwynnwn am faterion sydd o ddiddordeb cyffredinol i Gymru yn ddwyieithog.

Cyflawnwn hyn drwy:

- *sicrhau yr atebir pob gohebiaeth yn yr iaith y'i hysgrifennwyd. Gohebir â phobl yn bersonol yn eu dewis iaith, os yw'n hysbys. Os nad yw'n hysbys, anfonwn lythyr dwyieithog i ddechrau. Gohebir yn Gymraeg yn gyntaf â phobl y gwyddys ei bod yn well ganddynt ohebu yn Gymraeg; a*
- *sicrhau bod Estyn yn ymateb yr un mor gyflym yn Gymraeg a Saesneg.*

Cyfathrebu â'r cyhoedd dros y ffôn ac wyneb yn wyneb

Mae croeso i unrhyw un sy'n ein ffonio siarad yn Gymraeg neu Saesneg. Cyferchir pawb yn ddwyieithog. Gallant ddisgwyl cael eu trosglwyddo i aelod o staff a all sgwrsio â hwy yn Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad. Rhoddir yr un gwasanaeth i ymwelwyr sy'n dod i swyddfeydd Estyn.

Cyflawnwn hyn drwy:

- *sicrhau bod pob aelod o staff sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'r cyhoedd wedi derbyn cyfarwyddyd i gyfarch ymholwyr yn ddwyieithog; ac*

- *os nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, cynigir trefnu i berson sy'n siarad Cymraeg ffonio'n ôl ar y cyfle cyntaf. Rhoddir dewis hefyd iddo un ai i barhau â'i alwad yn Saesneg neu ysgrifennu atom yn Gymraeg.*

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Anogwn a chroesawn ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ym maes cyfathrebu electronig.

Gwnawn hyn drwy:

- *sicrhau bod unrhyw feddalwedd newydd a'n gwefan newydd yn gydnaws â'r Cynllun a'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg.*

Cyfarfodydd cyhoeddus

Wrth drefnu cyfarfodydd lle mae aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys cyfarfodydd arolygu â rhieni a chyrff llywodraethu, gwnawn y trefniadau ymarferol sy'n ofynnol er mwyn sicrhau y caiff pawb siarad yn ei ddewis iaith. Mae hyn yn berthnasol i gyfarfodydd arolygu sy'n cael eu harwain gan AEM ac arolygwyr ar gontract.

Gwnawn hyn drwy:

- *ddefnyddio'r ffurflen gofynion arolygu i ofyn i'r corff llywodraethu a fydd angen cyfieithu mewn cyfarfodydd arolygu. Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am benderfynu a bydd yn gwneud hynny ar sail dymuniadau'r rhieni a natur ieithyddol yr ysgol neu sefydliad arall a'r ardal. Wrth wahodd arolygwyr cofrestredig i gyflwyno tendr ar gyfer arolygu ysgol, mynnwn ei bod yn rhaid ymgymryd â chyfieithu yn y lleoedd y gofynnwyd am hynny. Mae hyn yn wir hefyd am bob arolygiad sy'n cael ei arwain gan AEM; a*

- *sicrhau wrth drefnu cyfarfodydd â rhieni, llywodraethwyr neu aelodau eraill o'r cyhoedd, y rhoddir ystyriaeth i'r trefniadau ymarferol fydd eu hangen er mwyn sicrhau y caiff pawb yn y cyfarfod y dewis o siarad yn Gymraeg neu Saesneg.*

Cyfarfodydd a chynadleddau Estyn

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd siarad yn Gymraeg neu Saesneg yn ein cyfarfodydd.

Cyflawnwn hyn drwy:

- *drefnu cyfieithu, yn enwedig mewn sesiynau trafod agored; a*

- *sicrhau bod cyfle i ddefnyddio Cymraeg a Saesneg mewn grwpiau trafod er mwyn i bawb yn y grŵp gael cyfrannu yn ei ddewis iaith.*

Hunaniaeth gorfforaethol

Bydd enw, cyfeiriad a logo Estyn yn ddwyieithog ac yn cael eu defnyddio yn ein holl gyhoeddiadau/gyfeiriadau/gyflwyniadau. Mae'r hysbysrwydd ar swyddfeydd Estyn yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug yn ddwyieithog a rhoddir statws cyfartal i'r ddwy iaith o safbwynt fformat, maint, ansawdd ac eglurder y testun.

Gwnawn hyn drwy:

- *sicrhau y caiff penawdau llythyron, slipiau cyfarch, taflenni cyflwyno (ffacs ac eraill), cardiau busnes staff ac eitemau tebyg eu llunio'n ddwyieithog a bod gan y ddwy iaith statws cyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun; a*

- *sicrhau bod pob arwydd newydd ac arwydd a adnewyddir yn ddwyieithog.*

Cyhoeddiadau

Bydd pob aelod o'r cyhoedd yn gallu darllen cyhoeddiadau gan Estyn sydd o ddiddordeb cyffredinol i Gymru yn ei ddewis iaith. Gall unrhyw berson sy'n gysylltiedig â sefydliad addysg a hyfforddiant yng Nghymru ddisgwyl gweld adroddiadau ar sefydliadau unigol a gyhoeddwyd gan AEM neu Arolygwyr Cofrestredig yn cael eu dosbarthu'n ddwyieithog pan ofynnir amdanynt gan y sefydliad, neu, yn achos ysgolion neu wasanaeth awdurdod lleol, gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol. Os na ofynnir am adroddiad dwyieithog fersiwn Saesneg yn unig fydd yn ymddangos.

Gwnawn hyn drwy:

- *sicrhau bod gan adroddiadau Estyn a gyhoeddir yn ddwyieithog fformat dwyieithog; ni chyhoeddir fersiynau Saesneg a Chymraeg o destunau ar wahân oni bai ei bod yn fwy priodol gwneud hynny mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft os bydd fformat dwyieithog yn achosi i ddogfen fod yn anhylaw. Cyhoeddir pob deunydd ar yr un pryd a'u dosbarthu gyda'i gilydd.*

Ffurflenni a deunydd esboniadol

Dosberthir pob ffurflen a deunydd esboniadol yn ddwyieithog. Bryd bynnag y bo'n fwy priodol dosbarthu ffurflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân (pan fyddai dogfen ddwyieithog yn rhy anhylaw, er enghraifft) dosbarthwn y ddwy fersiwn ar yr un pryd gan sicrhau bod y naill a'r llall ar gael fel ei gilydd.

Gwnawn hyn drwy:

- *fonitro'n holl ffurflenni a chyfarwyddyd esboniadol er mwyn sicrhau y'u dosberthir yn ddwyieithog. Dosberthir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o bryd i'w gilydd yn unol â'r amgylchiadau a'r dulliau o weithredu a nodwyd uchod.*

Hysbysiadau ar gyfer y wasg

Bydd pob hysbysiad ar gyfer y wasg sy'n sôn am ein gwaith yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Dosberthir yr hysbysiadau i ganolfannau cyfryngau Cymraeg a Saesneg yng Nghymru.

Cyflawnwn hyn drwy:

- *ddarparu cyfarwyddiadau swyddfa er mwyn sicrhau y dosberthir pob hysbysiad a datganiad i'r wasg yn ddwyieithog, a monitro cydymffurfiad.*

Deunydd cyhoeddusrwydd

Bydd pob deunydd cyhoeddusrwydd, boed wedi'i argraffu neu mewn unrhyw fformat arall, gan gynnwys deunydd arddangosfeydd, yn Gymraeg a Saesneg. Bydd ansawdd y fersiynau Cymraeg cystal â'r rhai Saesneg a bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Cyflawnwn hyn drwy:

- *gynhyrchu a monitro'r gwaith o gynhyrchu defnyddiau cyhoeddusrwydd Cymraeg a Saesneg er mwyn sicrhau bod safon y fersiynau terfynol yn gyson.*

Recriwtio

Bydd pob hysbyseb am swydd yn Estyn a hysbysebion ar gyfer hyfforddiant arolygu yn Gymraeg a Saesneg a bydd y ddwy fersiwn yn ymddangos ochr yn ochr. Rhoddir statws cyfartal i'r ddwy iaith o safbwynt fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun. Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y bydd hysbyseb yn ymddangos yn un iaith yn unig (er enghraifft, yn Gymraeg yn unig yn y wasg Gymraeg ac yn Saesneg yn unig yn y Times Educational Supplement).

Cyflawnwn hyn drwy:

- *gyhoeddi'n hysbysebion am swyddi a chyrsiau hyfforddi'n unol â'n polisi a'u monitro er mwyn sicrhau eu bod wedi'u llunio a'u cyhoeddi'n unol â'n gofynion.*

Gwasanaethau a ddarperir gan eraill ar ran Estyn

Arolygir tua 400 o ysgolion bob blwyddyn ar ran Estyn. Cynhelir y mwyafrif o'r arolygiadau hyn gan arolygwyr annibynnol ac fe'u rheolir yr gan y mesurau a amlinellir yn y Cynllun hwn.

Er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cynllun byddwn yn:

- *sicrhau bod pob contract yn cydymffurfio â thelerau'r Cynllun Iaith hwn;*

- *sicrhau bod manylebau contractau'n cynnwys gofynion penodol ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg;*

- *darparu gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer staff sy'n ymdrin â chontractau ac arolygwyr annibynnol sy'n gweithredu ar ein rhan;*

- *astudio tendrau arolygu'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r manylebau arolygu. Gallwn ddefnyddio'r amodau arolygu yn y contract i sicrhau bod contractwyr yn gweithredu adrannau perthnasol ein Cynllun Iaith; a*

- *monitro sampl o'r arolygiadau a gynhaliwyd, i benderfynu a fodlonwyd y gofynion iaith ai peidio a thynnu sylw at unrhyw enghreifftiau o dor-contract.*

Partneriaethau

Mae Estyn yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Wrth weithio gyda phobl eraill, bydd Estyn yn cymryd y camau canlynol:

- *pan fydd Estyn yn gyfrifol am arweiniad strategol ac ariannol partneriaeth, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth gyhoeddus yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith ei hunan;*

- *wrth ymuno â phartneriaeth sy'n cael ei harwain gan gorff arall, bydd Estyn yn sicrhau bod ei gyfraniad i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd yn annog y partneriaid eraill i wneud yr un fath; ac*

- *wrth weithredu fel rhan o gonsortia, bydd Estyn yn annog y consortiwm i fabwysiadu ei bolisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortia, bydd Estyn yn gweithredu'n unol â'i bolisi iaith ei hunan.*

Wrth ymuno â phartneriaeth neu sefydlu partneriaeth, bydd Estyn yn annog y darpar bartneriaid i ddarparu Cynlluniau Iaith, polisïau iaith neu drefniadau ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog. Un o swyddogaethau Estyn ym mhob partneriaeth fydd cynnig cyngor a chymorth i'r partneriaid eraill.

6. Gweithredu'r Cynllun

Arwain a rheoli'r Cynllun

Rhoddwn statws uchel i'n Cynllun Iaith a bwriadwn ei weithredu'n dda.

Gwnawn hyn drwy:

- *sicrhau bod cyfrifoldeb am y Cynllun - a ysgwyddir ar hyn o bryd gan y Prif Arolygydd - yn cael ei ddirprwyo i Arolygydd Rheoli penodol a fydd yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun yn feunyddiol ac am gyflwyno adroddiadau arno'n rheolaidd i'r Prif Arolygydd;*

- *sicrhau bod yr Arolygydd Rheoli'n cysylltu â chynrychiolwyr adrannau eraill ac isadrannau y tu mewn i adrannau er mwyn hwyluso'r gwaith o weithredu'r Cynllun a monitro ei effeithiolrwydd;*

- *caniatáu i weithgor, sy'n cynrychioli holl staff Estyn ac a gymeradwywyd gan dîm rheoli Estyn, gymryd rhan yn y gwaith o adolygu a datblygu'r Cynllun; a*

- *sefydlu trefniadau monitro addas.*

Staffio

Bydd gan Estyn ddigon o staff dwyieithog i ddwyn ei fusnes yn ei flaen yn unol â gofynion y Cynllun hwn. Bydd hefyd yn sicrhau fod pob aelod o staff, gan gynnwys arolygwyr annibynnol, yn ymwybodol o ofynion y Cynllun.

Gwnawn hyn drwy:

- *fonitro gallu ieithyddol ac ymwybyddiaeth ieithyddol y sefydliad er mwyn sicrhau bod gennym y medrau dwyieithog angenrheidiol, gan gynnwys medrau arolygu dwyieithrwydd, ar gyfer bodloni gofynion y Cynllun hwn;*

- *nodi mewn dogfennau recriwtio lle y mae'n hanfodol neu y byddai'n fanteisiol i ymgeiswyr allu gweithio yn y ddwy iaith;*

- *cyflogi digon o staff dwyieithog i allu cyflawni gwaith yn effeithiol ac effeithlon yn y Gymraeg erbyn y dyddiadau terfynol a bennwyd;*

- *rhoi blaenoriaeth i anghenion hyfforddi staff yng ngoleuni'r angen am fodloni gofynion y Cynllun hwn;*

- *sicrhau bod hyfforddiant ar gael i staff Cymraeg eu hiaith ddysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn well er mwyn iddynt allu paratoi a helpu Estyn i wireddu ei amcanion;*

- *sicrhau bod cyfle i staff di-Gymraeg sydd am ddysgu'r iaith; a*

- *defnyddio arolygwyr ychwanegol ac aseswyr sy'n ymwybodol o ofynion y Cynllun hwn, yn ôl yr angen.*

Wrth recriwtio staff, bydd y Prif Arolygydd yn ystyried pa mor gyfarwydd yw'r staff presennol â'r Gymraeg ac yn hysbysebu'n ôl yr angen. Os penodir ymgeisydd di-Gymraeg lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, un o amodau'r swydd fydd bod Estyn yn darparu'r adnoddau a'r gefnogaeth angenrheidiol i'r person hwnnw allu dysgu'r iaith i'r safon ofynnol o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno.

Hyfforddiant Cymraeg i staff

Cynigir hyfforddiant i holl aelodau'r staff, gan gynnwys y rhai di-Gymraeg, ddatblygu neu wella eu medrau siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

Gwnawn hyn drwy:

- *gefnogi staff sydd am fynychu cyrsiau mewn canolfannau priodol i ddysgu siarad ac ysgrifennu'n well;*

- *darparu hyfforddiant mewnol i helpu staff i ysgrifennu Cymraeg mwy cywir; a*

- *chymryd cyfrif o'r anghenion hyfforddi staff a nodir yn ystod eu cyfnod sefydlu ac wrth eu harfarnu wedyn er mwyn cynllunio cyrsiau datblygu iaith ar gyfer staff yn unol â'u dymuniadau eu hunain ac anghenion Estyn.*

Helpu staff i weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg

Byddwn yn helpu staff i weithredu'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Gwnawn hyn drwy:

- *ddosbarthu copi o'r Cynllun Iaith i bob aelod o'r staff;*

- *rhoi cyfle i'r staff i gyd ymateb i ddrafft o'r Cynllun;*

- *darparu cyfarwyddiadau/arweiniad er mwyn cefnogi'r agweddau canlynol ar y Cynllun:*

    - *cyfathrebu â'r cyhoedd (dros y ffôn ac wyneb yn wyneb);*

    - *sefydlu'r angen i gynnal cyfarfodydd â phenaethiaid a chadeiryddion byrddau llywodraethwyr yn Gymraeg;*

    - *gweithredu arfer Estyn o gyhoeddi dogfennau'n ddwyieithog;*

- *darparu cyfleoedd am hyfforddiant Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau ymwybyddiaeth iaith; a*

- *chasglu, storio ac adfer data a defnyddio systemau TG i gynhyrchu deunydd dwyieithog.*

Gwasanaethau cyfieithu

Sicrhawn wasanaethau cyfieithu effeithiol o safon uchel a fydd yn ein galluogi i fodloni gofynion y Cynllun.

Gwnawn hyn drwy:

- *fonitro cyflawniad o safbwynt targedau amser a gytunwyd; ac*

- *asesu safon y cyfieithiadau a rhoi adborth i'r gwasanaeth cyfieithu a fu'n gyfrifol amdanynt.*

7. Monitro'r Cynllun a chyhoeddi gwybodaeth

Bydd y drefn ganlynol ar adrodd ar gydymffurfiaeth â'r Cynllun yn cael ei mabwysiadu ar gyfer tair blynedd cyntaf y Cynllun diwygiedig:

1. Bydd adroddiadau cynnydd mewnol yn cael eu paratoi a'u cyflwyno gerbron y Tîm Rheoli Uwch yn chwarterol.

2. Bydd Estyn yn paratoi Adroddiad Monitro blynyddol fydd yn galluogi'r sefydliad i gyflawni'r amcanion canlynol:

   a. mesur a yw Estyn yn cydymffurfio â'r Cynllun;
   b. mesur ansawdd ei wasanaeth yn Gymraeg;
   c. mesur effeithlonrwydd y prosesau sydd mewn lle i reoli'r Cynllun;
   d. mesur digonolrwydd cyflenwad sgiliau ieithyddol y gweithlu trwy gymharu'r adnodd bresennol ag anghenion y gweithlu;
   e. dadansoddi ei berfformiad fesul Adran yn ogystal ag yn gorfforaethol, ac yn thematig, er mwyn sicrhau cysondeb; ac
   f. adnabod unrhyw wendidau sylfaenol, a chael cynllun gweithredol i'w cywiro gydag amserlen ynddo.

3. Yn dilyn cymeradwyaeth y Tîm Rheoli Uwch, bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

4. Yn nhrydedd blwyddyn o weithredu'r Cynllun diwygiedig, bydd Estyn yn adolygu ac yn diweddaru ei Gynllun Iaith Gymraeg gan baratoi Cynllun diwygiedig. Bydd Estyn hefyd yn paratoi adroddiad gwerthusol, fydd yn dadansoddi perfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y dair mlynedd. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys:

   a. Gorolwg a dadansoddiad thematig o berfformiad a chydymffurfiaeth â'r Cynllun dros y dair mlynedd, yn nhermau safon y gwasanaeth Cymraeg a rheolaeth o'r Cynllun; ac
   b. Amlinelliad o fwriadau, amcanion a thargedau Estyn ar gyfer y dair blynedd nesaf gyda amserlen weithredu ddiwygiedig. Yn ogystal, bydd yr adroddiad yn amlinellu unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau y cred Estyn y dylid eu cynnwys yn y Cynllun diwygiedig.

8. Hysbysrwydd i'r Cynllun

Gwnawn yn sicr y gŵyr pobl am ein Cynllun.

Gwnawn hyn drwy:

- gyfeirio mewn ffordd amlwg at ei ddatblygiad a'i brif nodweddion yn y cynllun corfforaethol neu'r cynllun blynyddol;
- cyhoeddi'r Cynllun ei hunan ynghyd â datganiad i'r wasg adeg ei gyhoeddi;
- dosbarthu taflenni/dalennau gwybodaeth yn rheolaidd i gyrff llywodraethu ysgolion, colegau a sefydliadau eraill a arolygir, sy'n disgrifio prif nodweddion y Cynllun; a
- chyhoeddi'r Cynllun ar wefan Estyn cyn gynted ag y bydd wedi'i ddatblygu.

9. Awgrymiadau ar gyfer gwella'r Cynllun

Croesawn unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r Cynllun a dylech eu hanfon at Mererid Wyn Williams, Arolygydd Rheoli, Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW.

10. Cwynion

Ymdrinnir â phob cŵyn yn unol â'r amserlen a gytunwyd yn nhrefn cwynion Estyn.

Gwnawn hyn drwy: ystyried cwynion, chwilio am dystiolaeth ac argymell newidiadau i'n harferion a'n harweiniad mewnol yn ôl yr angen.

Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg Estyn **Atodiad 1**

Bydd y Prif Arolygydd a'r Arolygydd Rheoli sy'n gyfrifol am y Cynllun Iaith Gymraeg yn goruchwylio'r holl weithgareddau monitro

Maes	**Nod y Polisi**	**Person sy'n gyfrifol am ei weithredu**	**Person sy'n gyfrifol am ei fonitro**	**Graddfa amser**	**Meini prawf llwyddiant**
3.Perthynas Estyn ag eraill; arolygu a chyngor	Byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ein holl waith arolygu a byddwn yn arolygu safonau darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ym maes addysg a hyfforddiant yng Nghymru	Yr holl staff	Penaethiaid Adrannau	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Yn effro i oblygiadau pob polisi a menter newydd; mae adroddiad arolygu yn cynnwys barnau priodol ar safonau darpariaeth Gymraeg a dwyieithog; mae cysylltiad rheolaidd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg; mae ein cyngor yn ystyried materion Cymraeg a dwyieithog.
4.Safonau ein gwasanaeth iaith	Anelwn at ddarparu gwasanaeth dwyieithog a Chymraeg o safon uchel a mabwysiadu'r arferion gorau posibl mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg, yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.	Yr holl staff	Rheolwyr	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Tystiolaeth o ymgynghori ynghylch anghenion ac ymateb yn briodol; tystiolaeth o driniaeth gyfartal; canllawiau eglur ar safonau gwasanaeth; datblygu polisi yng ngoleuni'r ymateb; ymateb cadarnhaol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth; dim cwynion a wireddwyd.
5. Gwasanaeth Cymraeg Estyn	Bydd pob gohebiaeth a anfonir yn y lle cyntaf gan Estyn sy'n ymwneud â Chymru'n gyffredinol yn ddwyieithog. Atebir pob gohebiaeth yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol.	Yr holl staff	Rheolwyr	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Cyfarwyddiadau desg yn eu lle; monitro'n dangos cydymffurfiaeth; dim cwynion a wireddwyd.
	Mae croeso i unrhyw un sy'n ein ffonio ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Cyferchir pawb yn ddwyieithog. Gall galwyr ddisgwyl gael eu trosglwyddo'n ôl eu dymuniad i aelodau o staff a all sgwsio â hwy yn y Gymraeg.	Yr holl staff	Rheolwyr	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Rhaglen sefydlu a hyfforddiant ar gyfer staff yn weithredol; a'r cyfarwyddiadau desg diweddaraf ar gael ac yn cael eu defnyddio.
	Anogwn a chroesawn yr arfer o ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg wrth gyfathrebu'n electronig a byddwn yn sicrhau bod ein gwefan yn ddwyieithog.	Rheolwr TGCh	Pennaeth Adran	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Gwefan ddwyieithog i Estyn wedi'i chreu.
	Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd sy'n cynnwys y cyhoedd a chyrff eraill ystyriwn y trefniadau ymarferol sydd eu hangen er mwyn caniatáu i bawb siarad yn eu dewis iaith. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau i arolygwyr a budd-ddeiliaid yn hyn o beth.	Yr holl staff	Rheolwyr	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Pob cyfarfod cyhoeddus yn bodloni gofynion y Cynllun ac yn dilyn y canllawiau a gyhoeddir.

	Mae croeso i'r cyhoedd siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ein cyfarfodydd a'n cynadleddau.	Yr holl staff	Rheolwyr	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Pob cyfarfod a chynhadledd yn bodloni gofynion y Cynllun.
	Bydd enw, cyfeiriad a logo Estyn yn ddwyieithog ac fe'u defnyddir ym mhob cyhoeddiad/cyfeirnod/cyflwyniad. Mae'r arwyddion hysbysrwydd ar Swyddfeydd Estyn yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug yn ddwyieithog, gyda'r ddwy iaith yr un mor amlwg â'i gilydd o safbwynt fformat, maint, ansawdd ac eglurder y testun.	Uwch Swyddog Gweithredol yr Adran Polisi, Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol	Pennaeth Adran	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Mae'r ddelwedd gorfforaethol yn bodloni gofynion y Cynllun.
	Bydd y cyhoedd yn gallu darllen cyhoeddiadau Estyn sy'n berthnasol i Gymru gyfan yn eu dewis iaith. Gall unrhyw un sy'n gysylltiedig â sefydliad addysg a hyfforddiant yng Nghymru ddisgwyl derbyn adroddiadau a gyhoeddir gan AEM neu ACof ar sefydliadau unigol yn ddwyieithog ar gais. Os na ofynnir am adroddiad dwyieithog, bydd adroddiadau ar sefydliadau unigol yn ymddangos yn Saesneg yn unig.	Adran Gyhoeddiadau	AEMRh Penaethiaid Adrannau	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Y cyhoeddiadau'n bodloni gofynion y Cynllun.
	Dosberthir pob ffurflen a deunydd esboniadol yn ddwyieithog. O dan amgylchiadau lle gallai fod yn fwy priodol darparu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, (e.e. lle byddai dogfennau dwyieithog yn anhylaw) dosbarthwn y ddwy fersiwn ar yr un pryd gan sicrhau bod y naill a'r llall ar gael fel ei gilydd.	Staff gwasanaethau corfforaethol ac AEMRh	AEMRh sy'n gyfrifol	Yn ei le ar y cyfan.	Mae'r holl ddeunydd yn bodloni gofynion y Cynllun.
	Bydd hysbysiadau i'r wasg am bob agwedd ar ein gwaith yn Gymraeg a Saesneg. Dosberthir yr hysbysiadau hyn i ganolfannau'r cyfryngau Cymraeg a Saesneg yng Nghymru.	Swyddog y wasg a'r adran gyhoeddiadau	Rheolwyr Polisi, Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol	Yn ei le: yn cael ei adolygu'n gyson	Cyhoeddir hysbysiadau i'r wasg yn ddwyieithog neu yn y naill iaith neu'r llall yn unol â chyfrwng y cyhoeddiad.
	Bydd pob deunydd cyhoeddusrwydd boed mewn print neu mewn fformat arall, gan gynnwys deunydd arddangos, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y fersiynau Cymraeg o'r un safon â'r fersiynau Saesneg ac ar gael ar yr un pryd.	Swyddog y wasg a'r adran gyhoeddiadau Arolygwyr	Rheolwyr Polisi, Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol AEMRh	Yn ei le: yn cael ei adolygu'n gyson	Pob deunydd cyhoeddusrwydd ar gael yn y ddwy iaith yn unol â'r un fanyleb.
	Bydd pob hysbyseb am swyddi yn Estyn ac am hyfforddiant arolygu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn ymddangos ar yr un pryd. Bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun.	Adran Polisi, Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol	Swyddog Adnoddau Dynol	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Yr holl ddeunydd a hysbysebion recriwtio'n bodloni gofynion y Cynllun.

	Arolygir mwy na 400 o ysgolion bob blwyddyn, gan arolygwyr annibynnol yn bennaf. Cynhelir yr arolygiadau hyn yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cynllun.	Adran Gontractau	Pennaeth yr Adran Arolygu cyn 16	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Yr arolygwyr dan gontract yn bodloni gofynion y Cynllun; dim cwynion a wireddwyd.
6. Gweithredu'r Cynllun	Byddwn yn rhoi statws uchel i'n Cynllun iaith a mynnwn iddo gael ei weithredu'n dda	Uwch Dîm Rheoli Yr Arolygydd Rheoli sy'n gyfrifol	Prif Arolygydd	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Y Cynllun iaith Gymraeg yn gwbl weithredol; Mae'r Cynllun yn gweithio'n llwyddiannus ac yn cael ei wella yng ngoleuni datblygiadau a'r ymateb a gafwyd; dim cwynion a wireddwyd.
	Bydd gan Estyn ddigon o staff dwyieithog i gynnal ei fusnes yn ôl gofynion y Cynllun hwn ac o fewn graddfeydd amser.	Yr holl staff sy'n ymwneud â gweithgareddau recriwtio	Prif Arolygydd	Yn ei le: yn cael ei fonitrou'n gyson	Penodir a hyfforddir staff fel y bo modd i Estyn fodloni gofynion y cynllun hwn; a hefyd rhoddir cyfleoedd i staff sydd am ddechrau dysgu Cymraeg, gwella eu Cymraeg neu ddod yn fwy hyderus wrth ysgrifennu Cymraeg ac i ddatblygu eu medrau iaith.
	Cynigir hyfforddiant i bob aelod o staff, er mwyn datbygu eu gallu i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Rheolwyr	Yr Arolygydd Rheoli sy'n gyfrifol	Yn ei le: yn cael ei adolygu'n gyson	
	Byddwn yn cefnogi staff i weithredu'n Cynllun iaith Gymraeg.	Rheolwyr	Yr Arolygydd Rheoli sy'n gyfrifol	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Mae hyfforddiant, cyfarwyddiadau desg a chymorth personol ar gael i staff.
	Byddwn yn sicrhau gwasanaethau cyfieithu effeithiol o safon uchel i'n helpu i fodloni gofynion y Cynllun.	Adran Gyhoeddiadau	Rheolwyr Polisi, Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol AEMRh sy'n gyfrifol	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Wedi sicrhau gwasanaethau priodol sy'n galluogi Estyn i fodloni gofynion y cynllun.
7.Monitro'r cynllun a chyhoeddi gwybodaeth	Byddwn yn monitro'n perfformiad o safbwynt cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun hwn gyda'r nod o'i wneud yn fwy effeithiol. Cyhoeddwn wybodaeth sy'n cymharu ein perfformiad yn erbyn y safonau a'r targedau a nodir yn y Cynllun hwn.	Yr holl staff	Aelodau'r Grŵp Llywio Dwyieithrwydd. Yr Arolygydd Rheoli sy'n gyfrifol	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Mae trefniadau monitro trylwyr yn eu lle sy'n sicrhau gwell gwasanaeth a Chynllun sy'n dderbyniol i'r cyhoedd.

8. Hysbysebu'r cynllun	Byddwn yn gwneud yn sicr bod pobl yn gwybod am ein Cynllun.	Adran Gyhoeddiadau Rheolwr y Wefan	Aelodau'r Grŵp Llywio Dwyieithrwydd Yr Arolygydd Rheoli sy'n gyfrifol	Yn ei le: yn cael ei fonitro'n gyson	Defnydd o'r wefan: ymateb gan y cyhoedd; lefelau uchel o ymwybyddiaeth o gynnwys y Cynllun Iaith ymysg staff a chleientiaid/cwsmeriaid; dim cwynion a wireddwyd.
9. Cwynion	**Ymdrinnir â phob cwyn yn unol â'r amserlen a gytunir yng ngweithdrefnau cwynion Estyn.**	Aelod priodol o'r staff	Rheolwr sy'n gyfrifol	Yn ei le: yn cael ei adolygu'n gyson	Ymdrin â phob cwyn yn unol â pholisi cwynion Estyn.